# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

28 Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Datganiad o Gyfrifon y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru am 2024/25 a'r archwiliad perthnasol. |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno datganiad o gyfrifon statudol terfynol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, yn ogystal ag adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru, sy'n manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

1.2. Trosglwyddwyd rôl a swyddogaethau y BUEGC i'r CBC ar 1 Ebrill 2025, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymiadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid, ac felly byddant yn cael eu cynnwys yn Datganiad o Gyfrifon y CBC o 2025/26.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

2.1. Ystyried a chymeradwyo'r adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru ar gyfer y BUEGC.

2.2. Ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon terfynol y BUEGC (ôl archwiliad) ar gyfer 2024/25).

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Cyflwynir yma y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2024/25. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2 o ISA260 Archwilio Cymru.

3.2. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod, ynghyd â'r Swyddog Cyllid Statudol, ardystio'r Llythyr Sylwadau. Gwneir hyn yn electronig (Atodiad 4 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r CBC gymeradwyo'r uchod.

3.3. Wedi iddo dderbyn y Llythyr Sylwadau wedi'i ardystio gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod a'r Swyddog Cyllid Statudol, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon drafft 2024/25 (amodol ar archwiliad) i'r CBC ar 18 Gorffennaf 2025, pryd bu craffu priodol.

4.2. Mae'r cyfrifon terfynol a gyflwynir yma i'r CBC ar 28 Tachwedd 2025 wedi cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru.

4.3. Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2024/25 i'r CBC ar 13 Mehefin 2025. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Nodir yn Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1** Datganiad o Gyfrifon y BUEGC ar gyfer 2024/25

**Atodiad 2** Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru

---

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w ychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.